REWILDING BRITAIN

# MANIFFESTO DAD-DDOFI CYMRU

#ThinkBigActWild



# MAE'N AMSER GADAEL I FYD NATUR ARWAIN.

**Mae angen i Lywodraeth Cymru Feddwl yn Fawr a Gweithredu'n Wyllt dros fyd natur, pobl a'r blaned**.

Mae'r DU yn un o'r gwledydd mwyaf prin ei byd natur yn y byd gydag ychydig dros hanner (53%) o'i bioamrywiaeth ar ôl, ffigwr sy'n ein gosod ni yn y 10% isaf o wledydd y byd o ran cyflwr ein byd natur.[1]

Mae bywyd gwyllt Cymru wedi lleihau 20% ers 1994 ac mae 42% o rywogaethau planhigion Cymru i'w canfod mewn llai o lefydd nag o'r blaen. Mae un o bob chwech o rywogaethau Cymru mewn perygl o ddiflannu, yn cynnwys rhywogaethau poblogaidd fel llygoden y dŵr a thegeirian y fign.[2]

Mae angen i'n llywodraeth wneud newid systematig ac uchelgeisiol i wrthdroi'r dirywiad hwn ac ymrwymo i adfer byd natur ar raddfa dirwedd, drwy ymrwymo **30% o dir a môr i adfer byd natur erbyn 2030**.

Wrth weithio gyda byd natur yn hytrach nac yn ei erbyn, mae dad-ddofi yn cynnig gobaith a chyfle i roi cyfle da i fyd natur (a ninnau). Gall adfer byd natur ar raddfa ein helpu ni i drawsnewid i ddyfodol carbon isel, cyfoethog o ran byd natur wrth ddarparu buddion real a gynhyrchir yn lleol heddiw. Mae'r buddion hyn yn cynnwys gwytnwch hinsawdd, bioamrywiaeth sy'n ffynnu, economïau gwyrdd bywiog, bywoliaethau lleol, lliniaru llifogydd, aer, dŵr a phriddoedd mwy iach, storio carbon ac iechyd a llesiant gwell. Bydd gwneud hynny'n helpu i gryfhau economïau gwledig a gwneud cyfraniad pwysig i'n hymrwymiadau llesiant dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym yn amcangyfrif bod llai nag 1% o Gymru yn dad-ddofi ac mae arnom angen i bob plaid wleidyddol ymgorffori dad-ddofi 30% o dir a môr i'w haddewidion etholiad a darpariaeth wedi etholiad. Rydym wedi gosod y camau gweithredu allweddol i arweinwyr gwleidyddol yng Nghymru ac wedi creu'r **Maniffesto Dad-ddofi Cymru** i alluogi ein llywodraeth nesaf i weithredu'n gyflym a phendant i amddiffyn, adfer a dad-ddofi byd natur ym Mhrydain.

**30%**
**O DDAD-DDOFI AR Y TIR A'R MÔR ERBYN 2030**



# BETH YW DAD-DDOFI?

Mae dad-ddofi yn ymwneud â gobaith i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd, gan ddarparu nifer helaeth o fuddion ar gyfer pobl a chymunedau lleol ar yr un pryd.

Yr hyn sydd wrth wraidd dad-ddofi yw'r pwyslais ar adfer prosesau naturiol, megis afonydd sy'n llifo'n rhydd neu berthnasoedd rhwng y rheibiwr a'r ysglyfaeth a, lle bo'n briodol, rhywogaethau coll — gan eu galluogi i greu brithweithiau deinamig o gynefinoedd sy'n newid yn barhaus. Mae'n dod â phobl a chymdeithasau ynghyd i ddod o hyd i ffyrdd o weithio, byw a ffynnu o fewn ecosystemau llewyrchus ac iach.

Mewn byd sydd wedi'i chwalu oherwydd colled bioamrywiaeth, dinistr cynefinoedd a'r argyfwng hinsawdd, gall dad-ddofi adfer bywyd rhyfeddol byd natur — drwy adfer cynefinoedd, prosesau naturiol ac amrywiaeth a digonedd o rywogaethau brodorol.

# EIN MANIFFESTO

Mae gan ein maniffesto bum galwad i weithredu allweddol a fydd yn creu newid cadarnhaol a chynhwysol:

## 1. Darparu 30% o reolaeth dad-ddofi cyflym a arweinir gan brosesau sy'n adfer prosesau naturiol erbyn 2030:

Hybu dad-ddofi i'n helpu ni i drawsnewid i ddyfodol carbon isel, cyfoethog o ran byd natur wrth ddarparu buddion real sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol heddiw.

## 2. Ehangu swyddi a busnesau ar sail byd natur:

Cymell a buddsoddi mewn economïau ar sail byd natur sy'n gysylltiedig â throsglwyddo gwyrdd, cyfiawn.

## 3. Gwneud byd natur gwyllt yn hawl i bawb:

Gwella mynediad i fyd natur mwy gwyllt ac adfer ein cysylltiad ag o er budd ein holl iechyd a'n llesiant.

## 4. Grymuso cymunedau i arwain ar ddad-ddofi:

Gosod pobl a chymunedau wrth galon penderfyniadau ynghylch ein tir a'n môr a'i adferiad.

## 5. Creu newid a fydd yn drobwynt mewn cyllido a buddsoddi mewn dad-ddofi:

Gyrru buddsoddiad hirdymor, cynaliadwy, cyhoeddus a phreifat i gyflawni 30% o ddad-ddofi o fewn system ariannol sy'n gwerthfawrogi byd natur ac yn buddsoddi ynddo.

# MAE EIN POLISI'N GOFYN BYD NATUR A HINSAWDD

**1**

**Darparu 30% o reolaeth dad-ddofi cyflym a arweinir gan brosesau sy'n adfer prosesau naturiol erbyn 2030**
Hybu dad-ddofi i'n helpu ni i drawsnewid i ddyfodol carbon isel, cyfoethog o ran byd natur wrth ddarparu buddion real sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol heddiw.

## Ein tir a'n môr

- Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gadarnhau deddfwriaeth eilradd yn y Bil Egwyddorion Amgylcheddol a Bioamrywiaeth sydd i ddod, cyn pen 18 mis i osod y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae angen i'r targedau gydymffurfio'n glir â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang a sefydlu targedau ar gyfer rheolaeth tir a arweinir gan brosesau naturiol.
- Ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid wrth gynhyrchu cynllun gweithredu 'Cenedl Wyllt' 30erbyn30. Byddai hyn yn meithrin yr argymhelliad o ddull 'Tîm Cymru' i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth ehangach yn fyd-eang ac yn ddomestig a gynigiwyd gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, Llywodraeth Cymru yn ei adroddiad *Atal a gwrthdroi colli byd natur erbyn* 2030.[3]
- Dylai'r cynllun 'Cenedl Wyllt' ddangos sut y gall Cymru gyflawni 30% o ddad-ddofi tir a môr erbyn 2030, archwilio sut y gall dad-ddofi ddod â budd i bobl, byd natur a'r hinsawdd, a sicrhau y caiff buddsoddiadau cyfalaf naturiol eu rheoleiddio i gynyddu buddion cyhoeddus a chymunedol.



- Sefydlu Fframweithiau Defnydd Tir cenedlaethol a lleol sy’n rhwymol yn gyfreithiol sy’n cydbwyso byd natur, sero net, targedau cynhyrchu bwyd a phren yn ddigonol gydag ymrwymiad i ddad-ddofi 30% o Gymru.

- Datblygu fframwaith cynllunio gofodol morol strategol ac integredig gwirioneddol, wrth gwblhau a darparu rhwydwaith cyson o Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

- Sicrhau bod digon o adnoddau’n cael eu dyrannu i adrannau’r llywodraeth sy’n gyfrifol am adfer byd natur ar bob lefel ledled Cymru.

- Grymuso Cyfoeth Naturiol Cymru, y rheolwr tir mwyaf yng Nghymru, i arwain ar adfer byd natur drwy lythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth - gan ddechrau drwy greu coedwigoedd mwy gwyllt o fewn yr ystad gyhoeddus. Bydd caniatáu prosesau naturiol i adfer ecosystemau, fel eu bod yn gweithredu’n llawn, yn creu mannau gwerthfawr ar gyfer ein cymunedau, wrth barhau i gynhyrchu pren cynaliadwy.

- Sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys mesurau clir a fframwaith monitro i olrhain cynnydd tuag at dargedau adfer bioamrywiaeth.

## Ein bywyd gwyllt a chynefinoedd

- Symleiddio deddfwriaeth ar gyfer ailgyflwyno rhywogaethau brodorol sydd ar goll er mwyn helpu i ailadeiladu ecosystemau iach.

- Datblygu strategaeth ailgyflwyno rhywogaethau sy’n amlinellu sut y bydd rhywogaethau allweddol, fel yr afanc, yn cael eu cynorthwyo i ailsefydlu ledled Cymru – gan helpu cymunedau i sylweddoli’r buddion y maent yn eu darparu ar gyfer ansawdd dŵr, storfa a rheoli, wrth greu cynefin newydd ac adfer swyddogaethau ecosystem.

- Gosod targedau adfer rhywogaethau cenedlaethol, yn cynnwys cynnydd mewn ystod a thoreithrwydd, ar gyfer lleiafswm o 100 o’n rhywogaethau sydd fwyaf dan fygythiad.

- Ymrwymo i ddarparu’r argymhellion a nodwyd yn adroddiad Llywodraeth Cymru *Atal a gwrthdroi colli byd natur erbyn 2030*.



- Cymell adfer prosesau naturiol graddfa fawr seiliedig ar fyd natur ar draws 30% o dir a môr Cymru, yn cynnwys y mesurau canlynol:
  - Dyblu cyfanswm coedwigoedd, gan ddefnyddio adferiad naturiol fel y dull arferol lle bynnag fo'n bosibl.
  - Rhoi diwedd ar danau mynydd a'r llosgi anghyfreithlon ar ein hucheldiroedd yn y gwanwyn.
  - Rhoi diwedd ar weithgareddau sy'n niweidiol i'r amgylchedd sy'n gysylltiedig â saethu ceiliogod y mynydd sy'n cael eu hannog drwy wahardd y gweithgaredd hwn yng Nghymru.
  - Sicrhau rheolaeth gynaliadwy o niferoedd y ceirw.
  - Trawsnewid rheolaeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig o ddull ar sail nodwedd i ddull ar sail ardal gyfan.
  - Gwahardd carthu a threillio gwaelodol diwydiannol ar draws ein Hardaloedd Morol Gwarchodedig.

## Ein harfordiroedd ac afonydd

- Cefnogi rheolwyr tir i ddod yn arwyr adfer afonydd - gyda chyllid priodol i ehangu adfer glannau afonydd a rheoli llifogydd naturiol i leihau llygredd maetholion a chyflymu addasu i newid yn yr hinsawdd.
- Creu Cynlluniau Rheoli Dalgylch Integredig sy'n eiddo i gymunedau lleol a grŵp eang o randdeiliaid ac sy'n cael eu darparu ganddynt, a rhoi grym i bartneriaethau dalgylch lywodraethu a phennu camau gweithredu a arweinir gan y gymuned, ynghyd â chyllid ar sail dalgylch.
- Galluogi prosiectau uchelgeisiol i adfer cynefinoedd carbon glas ar raddfa fawr o amgylch ein harfordiroedd, yn cynnwys morfeydd heli, morwellt, môr-wiail a gwelyau wystrys. Bydd gwneud hynny, nid yn unig yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ond hefyd yn darparu datrysiad ar sail byd natur i addasu i'w effeithiau, gan adeiladu gwytnwch yn erbyn erydiad arfordirol, ymchwyddiadau storm a llifogydd.

## Ein tirweddau a'n morluniau gwarchodedig

- Gwneud adferiad byd natur yn brif ddiben ein holl dirweddau gwarchodedig a morluniau, i adfer ecosystemau, helpu i atal chwalfa hinsawdd a gyrru economïau bywiog ar sail byd natur.
- Gosod targedau sy'n rhwymol yn gyfreithiol ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n caniatáu ac yn annog dull dad-ddofi.

# MAE EIN POLISI'N GOFYN SWYDDI A'R ECONOMI

2

## Ehangu swyddi a busnesau ar sail byd natur

Cymell a buddsoddi mewn economïau ar sail byd natur sy'n gysylltiedig â throsglwyddo gwyrdd, cyfiawn.

- Rhyddhau ton o arloesedd mewn menter ar sail byd natur a chynhyrchu bwyd, pysgota a phren a arweinir gan fyd natur sy'n gysylltiedig â dull dad-ddofi, e.e.
  - Creu marchnadoedd a chadwyni bwyd ar gyfer cigoedd gwyllt/lled-wyllt.
  - Datblygu a chyflwyno strategaeth pysgodfeydd sy'n ystyriol o'r hinsawdd.
  - Cynorthwyo pysgota arfordirol â llai o effaith a arweinir gan gymunedau.
  - Ehangu arferion coedwigaeth a arweinir gan fyd natur a melinau llifo lleol i gynhyrchu pren a chynhyrchion coed.
- Sefydlu 'parthau menter ar sail byd natur' gyda phecynnau cymorth datblygu busnes cysylltiedig.
- Darparu gweithlu gwyrdd medrus trwy ddatblygu ac achredu hyfforddiant a phrentisiaethau yn gyflym i lenwi'r bylchau sgiliau dad-ddofi a menter ar sail byd natur.
- Creu rhwydwaith o ymgynghorwyr dibynadwy a chydnabyddedig ar sail cymuned i gynorthwyo rheolwyr tir a defnyddwyr moroedd i drosglwyddo i ddulliau dad-ddofi.

# MAE EIN POLISI'N GOFYN IECHYD

3

**Gwneud byd natur gwyllt yn hawl i bawb**
Gwella mynediad i fyd natur mwy gwyllt ac adfer ein cysylltiad ag o er budd ein holl iechyd a'n llesiant.

- Cefnogi Hawl i Amgylchedd Iach, gan sefydlu hawl dynol ecosystemau iach a hinsawdd gyson.
- Cefnogi Hawl i Fynediad i Fyd Natur Gwyllt a rhoi datrysiadau ar waith, yn cynnwys seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, i ddarparu'r hawl hwn i bob dinesydd.
- Gofyn a chymell dinasoedd a threfi i integreiddio dad-ddofi trefol yn eu cynlluniau, yn cynnwys ardaloedd mwy gwyllt ar draws pob ardal werdd a glas.
- Cefnogi Y Môr a Ni – y fframwaith ar gyfer Llythrennedd Morol yng Nghymru – ac ymgorffori ei weledigaeth mewn gwneud penderfyniadau.



# MAE EIN POLISI'N GOFYN CYMUNED A CHYMDEITHAS

4

## Grymuso cymunedau i arwain ar ddad-ddofi

Gosod pobl a chymunedau wrth galon penderfyniadau ynghylch ein tir a'n môr a'i adferiad.

- Caniatáu a grymuso partneriaethau lleol a arweinir gan gymuned i gyd-ddylunio ac uwchraddio mentrau dad-ddofi.
- Amrywio modelau perchnogaeth cyhoeddus, preifat a chymunedol sy'n gwella penderfyniadau lleol, e.e. drwy gefnogi Hawliau Cymuned i Brynu ar gyfer adfer byd natur, yn ogystal â mecanweithiau effeithiol ar gyfer rhannu buddion y gymuned.
- Egluro hawliau cyffredin a hawliau tenantiaeth ar gyfer carbon a bioamrywiaeth i sicrhau eu bod yn datgloi -a rhannu buddion o – adferiad byd natur.
- Diwygio prosesau trwyddedu adfer môr i leihau ceisiadau, annog prosiectau ar raddfa dirwedd forol a galluogi cymunedau i ymyrryd yn weithgar i adfer eu glannau.





# MAE EIN POLISI'N GOFYN BUDDSODDI YN EIN DYFODOL

5

**Creu newid a fydd yn drobwynt mewn cyllido a buddsoddi mewn dad-ddofi**

Gyrru buddsoddiad hirdymor, cyhoeddus a phreifat i gyflawni 30% o ddad-ddofi a rheoli a arweinir gan brosesau sy'n adfer prosesau naturiol o fewn system ariannol sy'n gwerthfawrogi byd natur ac yn buddsoddi ynddo.


- Ymrwymo i gyllid cyhoeddus hirdymor a chynlluniau talu sy'n darparu sefydlogrwydd i reolwyr tir a chynhyrchwyr pysgod ac yn eu gwobrwyo am eu rôl hanfodol wrth gydbwyso cynhyrchu bwyd a phren, gweithredu ar yr hinsawdd ac adfer natur.
- Uwchraddio buddsoddiad sector preifat uniondeb uchel a dyngarol yn gyflym i gefnogi portffolio o fentrau dad-ddofi ar raddfa fawr.
- Diogelu a chadw at ein pum egwyddor ariannu dad-ddofi i sicrhau bod cyllid a buddsoddiadau'n dwyn gwerth a rennir i fyd natur, yr economi a chymunedau lleol.
- Datblygu a chyhoeddi strategaeth fanwl ar strategaeth gyllid byd natur.

# DELWEDDAU

Tudalennau: 1, 3: Cefn Garthenor © Alex Hyde, tudalen 5: Cath wyllt © Pete Cairns/scotlandbigpicture.com, tudalen 6: Coedwig wymon © scotlandbigpicture.com, tudalen 9: Y Môr a Ni © Y Gymdeithas Cadwraeth Forol, tudalen 10: Wild Tolworth © Alex Hyde, tudalen 11: Pysgotwr © Toby Roxburgh/2020VISION, tudalen 12: Afanc © photocechCZ/shutterstock

# CYFEIRIADAU

1. Amgueddfa Astudiaethau Natur. (n.d). Mynegai Cyfanrwydd Bioamrywiaeth. https://www.nhm.ac.uk/our-science/services/data/biodiversity-intactness-index.html
2. State of Nature 2023. https://stateofnature.org.uk/countries/wales/
3. Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, Llywodraeth Cymru (2025). Mesur cynnydd dad-ddofi. https://senedd.wales/media/ts0f1ekc/cr-ld16916-e.pdf



# EIN CEFNDIR

Ni yw Rewilding Britain. Rydym yn helpu i greu Prydain fwy gwyllt ar gyfer natur, hinsawdd a phobl. Rydym yn ysbrydoli mudiad o ddad-ddofwyr ledled tiroedd a moroedd Prydain — ton o obaith, fel ein bod ni, gyda'n gilydd, yn gallu sicrhau dyfodol mwy gwyllt a llawn byd natur sy'n fuddiol i bawb. Bydd dad-ddofi yng Nghymru yn cael ei lywio gan gyd-destun ecolegol, deddfwriaethol a diwylliannol unigryw'r wlad.

Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i ymrwymo i ddad-ddofi 30% o'n tir a'n moroedd erbyn 2030.
**Mae'n amser gweithredu**. **#ThinkBigActWild**

**REWILDING BRITAIN**

Mae Rewilding Britain yn sefydliad corfforedig elusennol cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (rhif 1159373), a'r Alban (rhif SCO45685).
**Swyddfa gofrestru:** The Courtyard, Shoreham Road, Upper Beeding, Steyning, West Sussex BN44 3TN